Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru

WHELF



Adroddiad Blynyddol 2008 – 2009

Casgliad o Brif Lyfrgellwyr a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth o'r holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yw WHELF (Fforwm Llyfrgelloedd Sefydliadau Addysg Uwch Cymru). Mae'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn – dwywaith trwy gyfrwng fideogynadledda, a dwywaith yng Nghanolfan Gynadledda Prifysgol Cymru, Gregynog; y Cadeirydd yw Prif Lyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Nod WHELF yw hybu cydweithrediad ym maes gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth; annog cyfnewid syniadau; darparu fforwm ar gyfer cydgefnogi, a helpu i hwyluso syniadau newydd yn y ddarpariaeth o wasanaethau llyfrgell a gwybodaeth.

Mae WHELF yn gweithredu trwy hybu gwaith llyfrgelloedd addysg uwch yng Nghymru, ac yn darparu ffocws i annog datblygu syniadau a gwasanaethau newydd.

Llyfrgelloedd WHELF
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Glyndŵr
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Prifysgol Abertawe
Coleg Prifysgol y Drindod
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Cymru
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

Cynnwys

Cyflwyniad y Cadeirydd	4
Crynodeb o'r Flwyddyn	5
Cydweithredu a Phartneriaeth	7
Rhwydwaith Cronfeydd Cymru	11
Digideiddio	12
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	14
Cynrychiolaeth	17

Lluniau'r clawr:
Llyfrgell Trevithick, Prifysgol Caerdydd
Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008: Alison Walker (Rhwydwaith Fideo Cymru) a Sue Mace (WHELF) gyda Gwerfyl Pierce Jones, Cyfarwyddwr Cyngor Llyfrau Cymru, a Jane Hutt, y Gweinidog dros Addysg.



Ystafell Ddarllen y Gogledd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cyflwyniad y Cadeirydd

Gweithio mewn dull cydweithredol yw nod WHELF bob amser. Ychydig iawn o grwpiau addysg uwch yng Nghymru – os o gwbl – sydd â gwell record o gyfuno adnoddau a dyfeisgarwch er budd myfyrwyr ac ymchwilwyr fel ei gilydd.

Mae tair thema'n eu hamlygu eu hunain ymysg llwyddiannau WHELF yn 2008/09, a phob un ohonynt yn ymwneud ag adnoddau ar-lein: prynu mynediad, ar y cyd, at lyfrau electronig ac, yn fwy diweddar, at gylchgronau electronig; cyd-ddatblygu'r cronfeydd digidol mewn sefydliadau, a dilyn strategaeth a rhaglen o ddigideiddio.

Ni fyddai dim o hyn yn bosibl heb y cydweithredu a'r cyfeillgarwch diarhebol a geir ymysg aelodau WHELF a'u staff, heb waith diflino a medrus Sue Mace, ein Swyddog Datblygu, a heb Jeremy Atkinson, a fydd yn ymadael yn ystod haf 2009 ar ôl cyfnod nodedig fel Cadeirydd y Grŵp Datblygu.

Yn gefnlen i'n holl waith y mae'r gred ddiysgog ym mhwysigrwydd critigol gwybodaeth a mynediad at wybodaeth i addysg gadarn ac ymchwil drwyadl.

Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Janet Peters, Llyfrgellydd Prifysgol Caerdydd, gyda Carol Vorderman

Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, yn gweld Beibl Llanbedr Pont Steffan1279 yn ystod agoriad swyddogol Llyfrgell Roderic Bowen

Crynodeb o'r Flwyddyn

Roedd hon yn flwyddyn o ddathlu pen blwyddi yn llyfrgelloedd WHELF – gyda Phrifysgol Caerdydd yn dathlu 125 mlynedd, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru'n dathlu 60 mlynedd, a'r Brifysgol Agored yn dathlu 40 mlynedd. Yn ystod y flwyddyn hefyd gwelwyd nifer o sefydliadau addysg uwch yn cyflawni statws Prifysgol: Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Prifysgol Glyndŵr a Choleg Prifysgol y Drindod. Ar 16 Ebrill 2009, rhoddwyd caniatâd gan gyrff llywodraethol Coleg Prifysgol y Drindod a Choleg Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan i ffurfio Prifysgol newydd. Caiff Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant ei ffurfio ar ddiwedd haf 2010, yn ddibynnol ar dderbyn sêl bendith y Cyfrin Gyngor, a bydd yn croesawu ei myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2010.

Yn ddiweddar, cwblhaodd Prifysgol Cymru gynghrair strategol gyda chwech o'r sefydliadau Prifysgol yng Nghymru, a bydd yn cydweithio'n agos â hwy ar fentrau cydweithredol, grwpiau ymchwil a mentrau newydd eraill. Y sefydliadau hyn yw Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC), Prifysgol Cymru, Casnewydd, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod (o 2010, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant).

Ar 1 Mawrth 2009, cyhoeddodd pum prifysgol fwyaf Cymru eu bwriad i weithio ar y cyd, gan gyfuno eu cryfderau a'u talentau er mwyn gyrru'r economi wybodaeth yng Nghymru yn ei blaen. Gyda'i gilydd, mae Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Morgannwg ac Abertawe'n cynrychioli dros 70% o holl fyfyrwyr Cymru, a thros 95% o weithgaredd ymchwil y genedl. "Trwy adeiladu ar gyfalaf deallusol a rhagoriaeth academaidd ein prifysgolion, rydym yn gryf o'r farn y gallwn helpu Cymru i greu economi arloesol a deinamig, a chymdeithas deg ar gyfer yr 21ain ganrif."

Roedd arloesi'n elfen amlwg ym Mhrifysgol Caerdydd pan agorwyd Llyfrgell Trevithick ar ei newydd wedd ym mis Mawrth 2009 gan Carol Vorderman, sy'n Gymrawd er Anrhydedd. Ailgynlluniwyd y Llyfrgell yn llwyr i gyfoethogi profiad y myfyrwyr, a bellach mae'n cynnig ystod o amgylcheddau modern sy'n cwrdd â'r anghenion diweddaraf o ran technoleg a'r cwricwlwm.

Rebecca Davies

David Learmont

Agorwyd Llyfrgell Roderic Bowen, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, gan Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, ym mis Hydref 2008. Mae'r llyfrgell newydd hon yn gartref i Gasgliadau Arbennig Llanbedr Pont Steffan, sy'n drysorfa ar gyfer ymchwilwyr ac academyddion. Roedd y digwyddiad hwn yn cadarnhau'r diwylliant ymchwil ffyniannus a geir yn y Brifysgol, ac yn cynnig cyfleusterau newydd, cyffrous i ymchwilwyr i'w galluogi i wneud y defnydd gorau o'i chasgliad enwog o lyfrau a llawysgrifau prin.

Ym Mhrifysgol Abertawe, y Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth oedd yr adran gyntaf yn y Brifysgol i dderbyn Gwobr Ragoriaeth am Wasanaeth i'r Cwsmer. Mae'r adran yn un o nifer fechan o wasanaethau llyfrgell, TGCh a gyrfaoedd mewn prifysgolion yn y DG i dderbyn y wobr hon.

Eleni, ymddeolodd Dr Mike Hopkins o'i swydd fel Cyfarwyddydd Gwasanaethau Gwybodaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd Mike yn aelod gweithgar iawn o WHELF, a bydd colled fawr ar ôl ei gyfraniad i ddatblygiad gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth academaidd yng Nghymru.

Ei olynydd yw Rebecca Davies, cyn-bennaeth Gwasanaeth Llyfrgell ac Ymholiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru. Wrth sôn am ei phenodiad, dywedodd Rebecca, "Mae Prifysgol Aberystwyth wedi newid y tu hwnt i bob adnabyddiaeth oddi ar fy nghyfnod i yno fel myfyriwr, ac mae'n anrhydedd i gael fy mhenodi i weithio i sefydliad sy'n uchelgeisiol ac yn cynyddu, o ran ymchwil a nifer y myfyrwyr."

Ymunodd David Learmont â Phrifysgol Bangor ym mis Ionawr eleni fel Cyfarwyddydd y Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth, ar ôl symud o Brifysgol y Celfyddydau, Llundain. Yn ogystal â goruchwylio'r ddarpariaeth llyfrgell a ThG, bydd David yn cymryd rhan weithredol yng nghynlluniau'r Brifysgol i sefydlu Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi newydd ym Mangor, ac yn cyfrannu at ddatblygu strategaeth ddigidol.

Cydweithredu a Phartneriaeth

Taith Astudio WHELF i Ddulyn

Mae ein dulliau o gynllunio a defnyddio'n hadeiladau wedi dod yn fater cynyddol bwysig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda llyfrgelloedd academaidd yng Nghymru'n ailfeddwl ynghylch eu gofodau dysgu. Mae'r newid mewn arddulliau addysgu, a'r pwysau i fod yn effeithiol o ran cost a gofod, yn arwain at gynlluniau mwy arloesol. Prif nod y daith astudio oedd ymweld ag ystod o lyfrgelloedd academaidd yng Ngweriniaeth Iwerddon er mwyn adnabod enghreifftiau o arloesedd ac ymarfer da y gellid eu trosglwyddo i Gymru. Cafwyd cyfle i rannu gwybodaeth ac arbenigedd, ac i greu a chryfhau rhwydweithiau rhwng sefydliadau yn y ddwy wlad.

Teithiodd 16 o aelodau WHELF i Ddulyn ym mis Tachwedd, dan nawdd CyMAL, adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd yn brofiad hynod ddefnyddiol i ymweld â nifer o sefydliadau Addysg Uwch a'u llyfrgelloedd mewn cyfnod mor fyr. Yn achos y rhai sydd yn y broses o gynllunio adeiladau llyfrgell newydd, roedd hefyd yn brofiad gwerthfawr i weld adeiladau eiconig megis Llyfrgell Berkeley yng Ngholeg y Drindod, Dulyn, a rhai adeiladau mwy diweddar fyth megis y rhai ym Mhrifysgol Dinas Dulyn.

Crewyd cysylltiadau â CONUL, consortiwm o brif lyfrgelloedd ymchwil Iwerddon, ac mae'r meysydd posibl ar gyfer gweithredu ar y cyd yn cynnwys ymweliadau dwy-ffordd, datblygu staff, llythrennedd gwybodaeth a phrosiectau digideiddio. Mynychodd y grŵp hefyd gyfarfod o COLICO, corff Gogledd-De sy'n annog prosiectau cydweithredol yn Iwerddon (gweler y llun).

Mynychwyr cyfarfod COLICO

Mynychwyr y cyfarfod gyda SCURL

Cyd-weithwyr o SCURL, yr Alban, yn ymweld â Chaerdydd

Ymwelodd nifer o gyd-weithwyr o Gydffederasiwn Llyfrgelloedd Prifysgol ac Ymchwil yr Alban (SCURL) â Phrifysgol Caerdydd ym mis Mehefin ar gyfer diwrnod astudio llwyddiannus a gynhaliwyd ar y cyd â WHELF. SCURL yw'r prif sefydliad llyfrgelloedd ymchwil yn yr Alban, a bu'n gweithio'n gydweithredol ac ar draws y sectorau ers dros 25 mlynedd. Mae yna nifer o weithgareddau cydweithredol a phrosiectau o ddiddordeb cyffredinol yng Nghymru ac yn yr Alban, ac mae pawb yn awyddus iawn i'w harchwilio ymhellach.

Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd prynu e-lyfrau ac e-gylchgronau ar y cyd, rhannu catalogau, prosiectau cydweithredol yng Nghymru ac yn yr Alban, cynnydd ar fater cronfeydd, mynediad agored ac ystod eang o brosiectau digideiddio. Daeth y diwrnod i ben gyda thaith o amgylch Llyfrgell Trevithick, Prifysgol Caerdydd, sydd bellach ar ei newydd wedd.

Mynediad at e-adnoddau

O ganlyniad i gyfarfodydd a drefnwyd gyda chyd-weithwyr o Iwerddon a'r Alban, cafwyd gwybodaeth a fydd o gymorth gyda'r gwaith sydd ar droed gan WHELF ar hyn o bryd wrth iddo edrych ar y posibilrwydd o ddarparu cylchgronau ar y cyd i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae Llyfrgell Ymchwil Iwerddon yn dosbarthu cylchgronau ar-lein o safon uchel, a adolygwyd gan gymheiriaid, yn uniongyrchol i gyfrifiaduron ymchwilwyr lle bynnag y bônt. Yn yr Alban, caiff ymchwilwyr mewn prifysgolion fudd o fenter ar-lein ar y cyd sy'n sicrhau bod cylchgronau allweddol ar gael yn fwy eang. Cefnogir Llyfrgell Ddigidol Addysg Uwch yr Alban gan bob un o sefydliadau addysg uwch yr Alban, sydd o'r farn y bydd cael mynediad mwy rhwydd at ragor o gylchgronau'n sbarduno gwell ymchwil ac y bydd yn cefnogi dysgu ac addysgu. Mae'r dasg o sefydlu trefniant cyffelyb yng Nghymru ar waith ar hyn o bryd.

Yng Nghymru mae yna eisoes drefniant yn bodoli i brynu papurau newydd a gwasananaethau cyfeiriol ar-lein at ddefnydd llyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd, ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen i drefnu pryniant at y cyd yn achos cylchgronau iechyd ar gyfer y GIG a llyfrgelloedd addysg uwch. Trwy gydol y flwyddyn cynhaliwyd nifer o drafodaethau gyda chyhoeddwyr unigol, gyda golwg ar arbed arian pe byddai nifer o sefydliadau yng Nghymru yn prynu ar y cyd. Un o fanteision WHELF yw'r cyfle a geir i rannu gwybodaeth ac i drafod telerau ar y cyd, yn enwedig felly mewn cyfnod o gyni ariannol.

Canolfan Adnoddau Dysgu Trefforest, Prifysgol Morgannwg

Adeiladu ar gydweithrediad: cytundeb e-lyfr WHELF

Dan drefniant rhwng WHELF ac OCLC, mae NetLibrary yn darparu mynediad i 85,000 o fyfyrwyr Cymru a defnyddwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru at dros 600 o deitlau e-lyfrau mewn ystod eang o bynciau, yn cynnwys y gyfraith, gwyddor gwleidyddiaeth, celf, busnes, economeg, rheolaeth a hanes. Mae'r cydweithredu hwn wedi ymestyn y ddarpariaeth a sicrhau bod rhagor o e-lyfrau ar gael i'w defnyddio mewn addysgu, dysgu ac ymchwil. Enghraifft ddiweddar o brynu ar y cyd eleni oedd casgliad o e-lyfrau i gefnogi'r cwrs Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Uwch (PGCTHE) a gynigir gan UWIC mewn partneriaeth â Bangor, Aberystwyth, Abertawe a Llambed. Mae gwaith bellach mewn llaw i ddod o hyd i ddulliau o ymestyn y casgliad yn y dyfodol.

Cronfa Ymchwil y Deyrnas Gyfunol

Ymunodd Prifysgolion Caerdydd ac Aberystwyth â'r gronfa hon (UKRR) eleni. Caiff y casgliad hwn ar y cyd, sy'n dal copïau print o gyfnodolion ymchwil pwysig, ei reoli a'i storio trwy gyfrwng partneriaeth rhwng y Llyfrgell Brydeinig ac Addysg Uwch. Cedwir o leiaf dri chopi o gyfnodolion yn y categori 'defnydd isel' o fewn y DG. Trefnir mynediad i'r casgliad trwy'r *BL Document Supply Service*, sy'n gallu danfon dogfen yn electronaidd i gyfrifiadur pen-desg o fewn 24 awr. Mae'r ffaith na ddyblygir cyfnodolion ar draws y sector yn rhyddhau gofod gwerthfawr o fewn sefydliadau a gall pob llyfrgell unigol ddewis sut i ailddefnyddio'r gofod a arbedir. Yn achos y llyfrgelloedd a gymerodd ran yn y prosiect peilot, crewyd ardaloedd newydd, tawel, ar gyfer astudio, cafodd ardaloedd ar gyfer gwaith grŵp eu gwella, ac aethpwyd ati i gyfuno cyfleusterau astudio gyda'r casgliadau. Cafodd y gwelliannau hyn effaith gadarnhaol ac uniongyrchol ar fyfyrwyr ac ymchwilwyr lleol fel ei gilydd.

Rhannu arbenigedd

Mae WHELF yn cefnogi nifer o fentrau i sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei rhannu rhwng y gwahanol lyfrgelloedd addysg uwch yng Nghymru. Sefydlir Grŵp Hawlfraint Cymreig newydd, a rhoddwyd cefnogaeth hefyd i grŵp Cymreig aml-sector ar gyflwyno dogfennau. Yn ddiweddarach eleni cynhelir cyfarfod cyntaf y fforwm Casgliadau Arbennig ledled Cymru, gyda'r nod o gael llyfrgellwyr i ddiogelu casgliadau arbennig.

RFID yng Ngholeg y Drindod

Gliniadur ar fenthyg yng Nghasnewydd

Ffynhonnell Agored ar gyfer Llyfrgelloedd

Daeth dros 20 o gynrychiolwyr o sefydliadau addysg uwch, addysg bellach a llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru at ei gilydd yn Abertawe ym mis Ebrill i glywed am ffynhonnell agored ar gyfer llyfrgelloedd mewn theori ac yn ymarferol**.** Cafwyd gorolwg hefyd o'r defnydd cyfredol o'r system ffynhonnell agored VuFind fel rhan o'r prosiect Llyfrgell Academaidd Rithwir yng Nghymru. Defnyddir VuFind i ddarparu rhyngwyneb ar y cyd ar gyfer chwilio casgliadau tair prifysgol o adnoddau print ac electronaidd. Mae'r prosiect yn enghraifft dda o'r modd y mae Cymru'n arwain y ffordd yng nghyd-destun cydweithrediad rhwng llyfrgelloedd a datblygu ffynonellau agored.

Ariannu Cydgyfeiriol Ewropeaidd

Mae WHELF wedi comisiynu gwaith a fydd yn arwain at gyflwyno syniad am brosiect i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Byddai'r prosiect *Access to e-resources – navigating the digital world for business* yn helpu i oresgyn y sialensau a'r rhwystrau y gallai busnesau bach a chanolig ac entrepreneuriaid eu hwynebu wrth geisio sicrhau mynediad at wybodaeth fusnes a gwneud defnydd ohoni. Byddai'n darparu mynediad uniongyrchol at wybodaeth fusnes brintiedig i gefnogi busnesau newydd, ac ar gyfer busnesau sefydledig sy'n chwilio am wybodaeth benodol; gallai hefyd gynnig hyfforddiant, cyngor ac arweiniad ar y dulliau o sicrhau mynediad i'r wybodaeth sydd ar gael a sut i wneud y defnydd gorau ohoni.

Mynediad ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru

Cynllun yw CROESO sy'n caniatáu i unrhyw un o'r 85,000 o fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs addysg uwch yng Nghymru i ddefnyddio unrhyw lyfrgell addysg uwch arall i bwrpas cyfeirio. Mae sawl llyfrgell ar agor i'r cyhoedd i bwrpas ymgynghori, a cheir partneriaethau rhanbarthol sy'n caniatáu benthyca dwyochrog rhwng gwahanol lyfrgelloedd.

Fideogynadledda gydag awduron o Gymru

Yn ystod hydref 2008, bu WHELF yn gweithio gyda Rhwydwaith Fideo Cymru i drefnu cyfres o ddigwyddiadau gydag awduron. Gan ddefnyddio system fideogynadledda, llwyddwyd i gysylltu myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch â grwpiau mewn ysgolion a cholegau addysg bellach i gynnal digwyddiadau gyda'r awduron Bethan Gwanas, Mererid Hopwood a Rachel Trezise. Cafodd un o ddigwyddiadau WHELF yr anrhydedd o fod yn ddigwyddiad rhif 2008 yn ystod Blwyddyn Darllen Genedlaethol Cymru yn 2008. Cyfarfu Jane Hutt, y Gweinidog Addysg, ag Alison Walker a Sue Mace, trefnwyr y digwyddiad llwyddiannus, i'w llongyfarch.

Mynychwyr yn y lansiad

Rhwydwaith Cronfeydd Cymru

Gyda dyfodiad Rhwydwaith Cronfeydd Cymru, Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DG lle mae pob un o'r sefydliadau addysg uwch wedi sefydlu cronfeydd ar-lein. Cynhaliwyd y lansiad swyddogol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 19 Chwefror. Mae Rhwydwaith Cronfeydd Cymru, a ddatblygwyd dan nawdd WHELF, yn cynnwys 12 cronfa ymchwil prifysgol unigol. Dywedodd Dr Michael Hopkins, Cyfarwyddydd Gwasanaethau Gwybodaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth: "Mae'r cronfeydd yn caniatáu i brifysgolion archifo a diogelu cynnyrch deallusol eu sefydliadau, ac ar yr un pryd yn rhoi mynediad i unrhyw un yn y byd at ymchwil sydd ar flaen y gad."

Ym mis Ebrill, dyfarnodd JISC y swm o £260k i Aberystwyth i'w galluogi i gefnogi'r Prosiect Gwella Rhwydwaith Cronfeydd Cymru, a fydd yn weithredol rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2011. Bydd Aberystwyth yn gweithredu fel y prif bartner yn y cynllun hwn, a ariannwyd yn ddiweddar, a bydd hynny'n golygu cydweithredu â phob un o'r sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ac â Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Bydd tîm y prosiect yn archwilio potensial model cydweithredol, a reolir yn ganolog, i brysuro datblygiad gwasanaethau cronfeydd a'r defnydd ohonynt gan sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru; bydd hefyd yn archwilio'r potensial am fiwro adneuo cyfryngol i hwyluso'r defnydd cynyddol o'r cronfeydd newydd wrth iddynt ychwanegu cynnyrch ymchwil academaidd briodol.

Bydd elfen arall o'r prosiect yn gweithio ar greu Gwasanaeth Cynaeafu Traethodau Ymchwil Cymreig, mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan ddatblygu rhaglen beilot gynharach dan y teitl Pont Cronfeydd (Repository Bridge). Mae yna dystiolaeth glir bod argaeledd ar-lein yn cynyddu amlygrwydd a'r defnydd o draethodau ymchwil; byddai hyn yn rhoi mantais ymchwil fawr i Gymru ac yn cryfhau ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu dylanwad yr ymchwil a gynhyrchir yng Nghymru.

Ci â phibell yn ei geg – o gasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Flickr Commons)

Digideiddio

Strategaeth Ddigideiddio WHELF

Mae Cynllun Gweithredu WHELF am y cyfnod 2009–11 yn cynnwys y nod o 'gefnogi prosiectau digideiddio pellach'. Yr amcan gyntaf oedd cytuno ar strategaeth ddigideiddio ar gyfer WHELF, a gwnaed hyn ym mis Gorffennaf 2009.

Strategaeth WHELF yw cydweithredu, ar y cyd neu trwy gynghreiriau penodol, ar y canlynol:

- creu cynnwys digidol (neu ychwanegu at werth cynnwys digidol sy'n bodoli eisoes)
- rhannu arbenigedd a gwybodaeth mewn polisi ac wrth ymarfer digideiddio
- datblygu mecanweithiau a chefnogi deunyddiau i annog rhai i fabwysiadu digideiddio wrth ddysgu, addysgu ac ymchwilio
- helpu i wneud yr ymchwil a gyflawnir mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn fwy gweladwy.

Cylchgronau Cymru

Gan weithio mewn partneriaeth ag aelodau WHELF, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn cwblhau prosiect a ariannwyd gan JISC, y Llyfrgell ei hun, a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ddigideiddio rhan helaeth o'i chasgliad o gyfnodolion o'r 20fed ganrif sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r deunydd yn ymestyn o gyfnodolion academaidd ac ysgolheigaidd i gylchgronau materion cyfoes a phoblogaidd, ac yn adlewyrchu pob agwedd o fywyd yng Nghymru.

Papurau Newydd a Chylchgronau Cymru Ar-lein

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grant SCIF o £2m i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer prosiect dan y teitl 'Papurau Newydd a Chylchgronau Cymru Ar-lein'. Prosiect dros dair blynedd yw hwn i ddigideiddio cyfran uchel o'r holl bapurau Cymreig sydd allan o hawlfraint, a chyhoeddi'r testunau a gynhyrchir ar-lein fel y gall unrhyw un eu chwilio, eu pori a'u hailddefnyddio'n rhad ac am ddim. Cefnogwyd y cais a gyflwynwyd i SCIF (y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol) gan WHELF.

Ystafell Ddarllen y Gogledd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Baledi Cymru – cwblhau'r rhwydwaith o faledi Prydeinig

Bydd prosiect y Baledi Cymreig yn llenwi'r bwlch olaf yn y rhwydwaith o gasgliadau digidol o faledi printiedig trwy Brydain benbaladr. Ym Mrifysgol Caerdydd, ynghyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru a llyfrgelloedd Prifysgolion Bangor a Llambed, y mae'r prif gasgliadau o faledi Cymreig printiedig (yn Gymraeg a Saesneg). Caiff cyfanswm o 5,000 o faledi eu digideiddio, o'r baledi cynharaf o'r 18fed ganrif, hyd at yr ychydig olaf a gyhoeddwyd yn yr 20fed ganrif. Bydd hyn yn cynhyrchu cyfanswm o ryw 20,000 o dudalennau o ddelweddau testun digidol (y cyfan allan o hawlfraint). Datblygir porthol gwefan o gynllun peilot sydd eisoes mewn bodolaeth yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn darparu porth ac adnodd academaidd i hwyluso mynediad ac astudiaeth o'r faled yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn y cyd-destun rhyngwladol, a bydd yn cysylltu â'r catalog a'r delweddau baled.

Manchester & Milford Railway.

CAN NEWYDD,

neu

Taith gyda'r Railway

o

BENFRO I STRATA FLORIDA

Yng nghyd ag ychydig sylwadau ar y Gwaith oddi yno i Aberystwyth.

Ar y Don Fechan.

Pwff, pwff mae'r Train yn starto,
Yn y boren o Sir Benyfro;
Dyma gyfle nm Manchester
Neu warkyw rnn o Gymru a Lloegyr.

Canwn glod gymru glan
Canwn glod gymru glan,
Nawr i'r dyniou gwych a dewrion
Am waeyd ffordd i'r Coffyl Tan.

Dyma ni wrth Orsaf Tenby,
Pasio Whitland gyda hyny,
I Saint Clears, a Bankyfelyn
Dyma ni yn nhre Caerfyrddyn.
Canwn glod, &c.

Baled wedi'i digideiddio o'r casgliad yn Llyfrgell Salisbury, Prifysgol Caerdydd

Ystafell Ddarllen Shankland, Llyfrgell Prifysgol Bangor

Llyfrgell Trevithick, Prifysgol Caerdydd

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Nod WHELF yw annog datblygiad staff a darparu cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n aelodau. Mae'n cefnogi WHISD, grŵp datblygu staff ar gyfer aelodau WHELF a HEWIT. (HEWIT yw'r enw ar y grŵp o reolwyr Technoleg Gwybodaeth mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru).

Colocwiwm Gregynog 2009

Bob blwyddyn, mae WHELF a HEWIT yn trefnu colocwiwm preswyl yn Neuadd Gregynog, canolfan gynadledda Prifysgol Cymru, gan roi cyfle i staff llyfrgell a ThG drafod datblygiadau diweddar a chyfnewid profiadau.

Un o nodweddion llwyddiannus y Colocwiwm yw ei fod yn cynnig cyfle i weithwyr proffesiynol newydd (ac nid mor newydd!) roi cyflwyniad yn seiliedig ar eu profiad hwy eu hunain. Ymysg y themâu eraill yn y gynhadledd wych a gynhaliwyd eleni roedd casgliadau arbennig, addysg llyfrgell, ariannu a staffio, cydweithredu, newid rôl, darparu gwasanaeth arloesol, a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Fel rhan o'r rhaglen, roedd y Colocwiwm yn cynnwys Ffrwd Cronfeydd estynedig dros ddau ddiwrnod. Roedd nifer dda yn bresennol, a chafwyd gweithdai ymarferol a chyflwyniadau ar amrywiaeth o themâu, yn cynnwys hawlfraint a chronfeydd, adneuon amlgyfrwng, rheoli cronfeydd, Gwasanaeth Ar-lein Traethodau Ymchwil Electronig (EThOS) a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF).

Gweithredu Cydweithrediad yng Nghymru: cefnogi addysg uwch mewn colegau addysg bellach

Mae gan lyfrgelloedd rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi addysg uwch mewn addysg bellach, felly bob blwyddyn mae WHELF yn trefnu digwyddiad ar gyfer staff i roi cyfle i fynychwyr rannu profiadau, dysgu am y datblygiadau mwyaf diweddar, a datblygu rhaglenni gweithredu unigol ac ar y cyd ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd digwyddiad eleni ym mis Mehefin ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd. Roedd y themâu'n cynnwys gofodau dysgu cymdeithasol, gofodau dysgu pwrpasol ar gyfer addysg uwch, ac amgylcheddau dysgu personol ac e-bortffolios ar gyfer myfyrwyr.

Alun Ffred Jones, y Gweinidog Treftadaeth, yn cwrdd â mynychwyr yng Nghynhadledd Llyfrgelloedd Cymru

Cynhadledd Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd Cymru 2009

Roedd y gynhadledd flynyddol a gynhaliwyd ym mis Mai unwaith eto'n cynnig cyfle diguro i gwrdd â phobl sy'n rhan o waith llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd ym mhob sector o'r maes yng Nghymru. Y thema oedd Gofod, ac ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd Web 2.0, cynllunio gofod go iawn a rhithiol, rheoli newid, cynnwys digidol ar gyfer anghenion archifau a gwybodaeth cefn gwlad. Trefnodd WHELF seminar hanner-diwrnod lwyddiannus iawn, lle bu siaradwyr o sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn archwilio thema gofodau dysgu mewn llyfrgelloedd.

LILAC 2009

Yng Nghymru y cynhaliwyd LILAC 2009 (Cynhadledd Flynyddol Llythrennedd Gwybodaeth ar gyfer Llyfrgellwyr) eleni. Y lleoliad oedd Prifysgol Caerdydd, a'r themâu oedd: Llythrennedd Gwybodaeth a Dysgu a seilir ar chwiliad; Technolegau Ymddangosol; Llythrennedd Gwybodaeth am Oes; a Chefnogi Ymchwil. Nod LILAC yw darparu fforwm ar draws pob sector o'r proffesiwn, gan annog trafodaeth a chaniatáu cyfnewid gwybodaeth ym mhob agwedd o lythrennedd gwybodaeth. Mae llythrennedd gwybodaeth hefyd yn un o brif weithgareddau WHELF, ac ar hyn o bryd rydym yn ceisio tynnu at ei gilydd pob un o'r sectorau addysg gyda'r bwriad o ddatblygu fframwaith llythrennedd gwybodaeth genedlaethol i Gymru.

Lansio Gradd Sylfaen newydd yng Nghymru

Eleni, mae Prifysgol Glyndŵr yn cynnig Gradd Sylfaen mewn Ymarfer Llyfrgell a Gwybodaeth. Cymeradwywyd y cwrs gan CILIP (Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth Cymru) a bydd yn darparu sgiliau technegol angenrheidiol megis rheoli databasau, technegau ymchwil a thechnegau chwilio ar-lein. Datblygwyd y cwrs trwy gyfrwng grant o £10,000 gan CyMAL, un o adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gwobr am Ragoriaeth

Llongyfarchiadau i Cathie Jackson – Uwch-Ymgynghorydd: Llythrennedd Gwybodaeth yn y Gwasanaethau Gwybodaeth, Prifysgol Caerdydd – am ennill gwobr am Ragoriaeth mewn Dysgu a gyflwynwyd gan Ganolfan Bwnc HEA ar gyfer Gwyddor Gwybodaeth a Chyfrifiaduron. Hwn yw'r ail dro i Cathie ennill gwobr – yr haf diwethaf derbyniodd Wobr Goffa Wallace Breem am gyfraniad cwbl arbennig i lyfrgellyddiaeth y Gyfraith.

Digwyddiad y Brifysgol Agored yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd

'Diwrnod ym Mywyd . . .' Cip y tu ôl i'r llenni mewn llyfrgelloedd!

Yn ddiweddar, lansiwyd gwefan newydd – 'Diwrnod ym Mywyd' – sy'n taflu goleuni ar weithgareddau 'y tu ôl i'r llenni' yn y llyfrgell yn ystod blwyddyn dathlu pen blwydd Prifysgol Caerdydd yn 125 oed. Dywedodd Janet Peters, Llyfrgellydd y Brifysgol: "Mae ystod a chymhlethdod y gwaith heddiw mewn Llyfrgell Prifysgol fawr, brysur, yn rhyfeddol. Mae'r gyfres 'Diwrnod ym Mywyd', a luniwyd gan ddeg aelod o'n staff, yn adlewyrchu i'r dim y cyfuniad o waith arloesol a thraddodiadol, digidol a dogfennol, addysgol ac ysbrydoledig sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni yma ym Mhrifysgol Caerdydd." Ychwanegodd: "Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth yn cefnogi'r gwaith ymchwil a dysgu ym Mhrifysgol Caerdydd mewn dwsinau o ddulliau gwahanol. Mae ein cyfres 'Diwrnod ym Mywyd' yn dangos yr ystod o ddulliau gwahanol a ddefnyddir i gyflanwni hyn; mae'r rhai sy'n cyfrannu i'r gyfres yn gosod patrwm y gellid ei ddilyn gan unrhyw fyfyrwyr sy'n awyddus i ddilyn gyrfa fel gweithwyr gwybodaeth proffesiynol."

http://www.cf.ac.uk/insrv/aboutus/dayinthelife/index.html

Cynrychiolaeth

Caiff aelodau o WHELF eu cynrychioli ar ystod eang o sefydliadau, yn genedlaethol a ledled y Deyrnas Gyfunol, gan gynnwys y canlynol:

AWHILES – Gwasanaeth Ymestyn Gwybodaeth Iechyd a Llyfrgelloedd ledled Cymru – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd

CILIP Cymru – Sally Wilkinson, Coleg Prifysgol y Drindod; Rebecca Davies, Prifysgol Aberystwyth (o fis Mai 2009)

Grŵp Ymgynghorol CyMAL – Mike Hopkins, Prifysgol Aberystwyth (hyd fis Mawrth 2009)

Grŵp Ymgynghorol Llyfrgelloedd am Oes CyMAL – Chris West, Prifysgol Abertawe; Mike Hopkins, Prifysgol Aberystwyth (hyd fis Mawrth 2009); Rebecca Davies, Prifysgol Aberystwyth (o fis Mai 2009)

Bwrdd Gwasanaethau Ar-lein Llyfrgelloedd am Oes CyMAL – Lesley May, Prifysgol Cymru, Casnewydd

Bwrdd Ymgynghorol EThOS – Mike Hopkins, Prifysgol Aberystwyth (hyd fis Mawrth 2009)

Grŵp E-ddysgu HEFCW – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd

Pwyllgor Cynnwys Gwasanaethau JISC – Chris West, Prifysgol Abertawe (hyd fis Mehefin 2009)

Grŵp Ymgynghorol Digideiddio JISC – Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg; Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Melin Drafod Ffilm a Sain JISC – Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg

Fforwm y GIG-AU dros Gaffael ar y Cyd – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd

Rhwydwaith Gwybodaeth Ymchwil – Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Janet Peters, Prifysgol Caerdydd

Bwrdd Gweithredol Llyfrgelloedd Ymchwil y DG – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd

Llyfrgelloedd Ymchwil y DG – Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Bwrdd Gweithredol SCONUL – Chris West, Prifysgol Abertawe (hyd fis Mehefin 2009); Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg (o fis Mehefin 2009)

Gweithgor SCONUL ar Lythrennedd Gwybodaeth – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd

Grŵp Llywio Mynediad SCONUL – Paul Riley, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd; Josephine Burt, Y Brifysgol Agored

Grŵp Sicrhau Ansawdd SCONUL – Paul Jeorrett, Prifysgol Glyndŵr

Fforwm Cynghrair Cynnwys Strategol Cymru – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd; Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg; Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Adnodd Ymchwil y DG, Cam 1 a Cham 2 – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd

Rhagor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ar unrhyw bwnc a drafodir yn yr adroddiad blynyddol hwn, cysylltwch â:

Sue Mace
Swyddog Datblygu WHELF
Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe, SA2 8PP

Ebost: **s.j.mace@swansea.ac.uk**
Y We: **http://whelf.ac.uk**
Blog: **http://whelf.wordpress.com/**